

## **CYFYNGEDIG - ARCHWILIAD**

### **CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU:Y PWYLLGOR ARCHWILIO**

ADRODDIAD 01-02 - Cyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 16 Ionawr  
2002 yn unol ag adran 102(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998

#### **CYFRIFON CRYNO GIG CYMRU, 1999-2000**

<b>CYNNWYS</b>	<b>Paragraff</b>
Rhagymadrodd	1
Perfformiad ariannol cyffredinol GIG Cymru	5
Ailgyflunio ac ailstrwythuro GIG Cymru	15
Prisio presgripsiynau	21
Mynd i'r afael â thwyll yn y GIG	28
Crynodeb o'r argymhellion	30
Casgliadau cyffredinol	31

Atodiad A: Trafodiad perthnasol y Pwyllgor - Cofnodion Tystiolaeth  
(Dydd Iau 28 Mehefin 2001)

Atodiad B: Y Pwyllgor Archwilio

**Rhagymadrodd**

1. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag archwiliad y Pwyllgor o gyfrifon cryno'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru (GIG Cymru) ar gyfer 1999-2000. Yn 1999-2000, gwariodd GIG Cymru tua £2.6 biliwn gan ddarparu gwasanaethau gofal iechyd drwy bum awdurdod iechyd ac 16 ymddiriedolaeth GIG i bobl Cymru.
2. Archwiliwyd cyfrifon yr awdurdodau iechyd a'r ymddiriedolaethau GIG unigol yng Nghymru ar gyfer 1999-2000, ynghyd â rhai'r 21 o 'Gronfeydd a ddelir ar Ymddiriedolaeth' elusennol sydd gan gyrff GIG yng Nghymru, gan archwilydd a benodwyd gan y Comisiwn Archwilio. Darperir y cyfrifon gwaelodol hyn i'r cyhoedd gan bob corff ond nid yw'n ofynnol eu gosod gerbron y Cynulliad. Mae'r tri chyfrif cryno, a baratwir ar sail y cyfrifon gwaelodol gan Gyfarwyddiaeth GIG y Cynulliad, yn fodd i adrodd ar ganlyniadau ariannol cyffredinol GIG Cymru i'r Cynulliad. Archwiliwyd y rhain gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, ac fe'u gosodwyd<sup>1</sup> ynghyd â'i adroddiad<sup>2</sup> gerbron y Cynulliad. Rhoddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru farn archwilio ddiamod ar bob un o'r tri chyfrif cryno ar gyfer 1999-2000.
3. Ar sail yr adroddiad a baratwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, cymerasom dystiolaeth oddi wrth Mrs Ann Lloyd, Cyfarwyddwr GIG Cymru a'r Swyddog Cyfrifo ar gyfer Cyfrifon Cryno y GIG (Cymru). Gyda Mrs Lloyd yr oedd Mrs Sarah Beaver o Is-adran Cyllid GIG y Cynulliad a Mrs Jan Williams, Prif Weithredwr Awdurdod Iechyd Bro Taf. Ceir trawsgrifiad o'r dystiolaeth yn **Atodiad A**. Carem ddiolch i bob un o'r tri thyst am eu hatebion llawn a defnyddiol ac am y ffordd adeiladol yr oeddent yn ymateb i gwestiynau'r Pwyllgor.
4. Yn yr adroddiad hwn rydym yn archwilio perfformiad GIG Cymru o dan bedwar prif bennawd:
  - iechyd ariannol cyffredinol GIG Cymru;

---

<sup>1</sup> *Cyfrifon Cryno y GIG (Cymru) 1999-2000*, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 29 Mawrth 2001

<sup>2</sup> Adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru: *Cyfrifon Cryno y GIG (Cymru) 1999-2000*, a gyflwynwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 29 Mawrth 2001

## CYFYNGEDIG - ARCHWILIAD

- ailgyflunio ac ailstrwythuro;
- prisio presgripsiynau; a
- mynd i'r afael â thwyll yn y GIG.

### Iechyd ariannol cyffredinol GIG Cymru

#### *Rhagolygon ariannol a chanlyniadau ar gyfer 1999-2000*

5. Cyfanswm diffyg net GIG Cymru ar gyfer 1999-2000 oedd £5.3 miliwn (1998-99: £21.7 miliwn o ddiffyg). Roedd hyn yn cynnwys diffyg o £10.2 miliwn a nodwyd gan yr ymddiriedolaethau GIG, a wrthbwyswyd gan warged o £4.9 miliwn ar gyfer y pum awdurdod iechyd. O ganlyniad, cododd diffyg cronedig incwm a gwariant net GIG Cymru ar 31 Mawrth 2000 i gyfanswm o tua £58 miliwn<sup>3</sup>.
6. Yn Ebrill 2000, hysbyswyd y Pwyllgor hwn gan y Swyddog Cyfrifo ar y pryd fod GIG Cymru bryd hynny yn darogan diffyg cyffredinol o fewn y flwyddyn o tua £20 miliwn ar gyfer 1999-2000. Fodd bynnag, mae cyfrifon cryno archwiliedig yr awdurdodau iechyd a'r ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru ar gyfer 1999-2000 yn nodi diffyg net o £5.3 miliwn yn unig<sup>4</sup>. Gofynasom i'r Swyddog Cyfrifo pam yr oedd ei rhagflaenydd wedi gwneud rhagolwg mor anghywir cyn agosed at ddiwedd y flwyddyn ariannol dan sylw. Dywedodd Mrs Lloyd wrthym fod nifer o ffactorau anfesuradwy ar y pryd, gan gynnwys effaith yr anawsterau wrth brisio presgripsiynau, a olygodd nad oedd modd i GIG Cymru gynhyrchu rhagolygon dibynadwy ar gyfer blwyddyn ariannol 1999-2000<sup>5</sup>. Dywedodd y tyst wrthym fod camau cywiro ar y gweill, ond y byddai'r ffactorau hyn hefyd yn peri y byddai'r rhagolygon ar gyfer 2000-01 yn llai cywir nag y byddai Cyfarwyddiaeth y GIG yn dymuno<sup>6</sup>.
7. Rhoddodd Mrs Lloyd ddisgrifiad i ni o'r mesurau a oedd yn cael eu gweithredu i wella ansawdd ac amseroldeb darogan gwariant ac incwm o Ebrill 2002. Roedd y rhain yn cynnwys datblygu modelau, gweithredu darogan rheoli ymrwymadau misol, defnyddio methodoleg darogan gyson o fewn GIG Cymru a'r angen am

<sup>3</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Crynodeb Gweithredol, paragraff 14

<sup>4</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 4.5

<sup>5</sup> Cau 4 a 7

<sup>6</sup> C4

## CYFYNGEDIG - ARCHWILIAD

ddialog fwy cywir ac amserol rhwng Cyfarwyddiaeth y GIG a GIG Cymru ar gynnydd cynlluniau a ariannir gan y Cynulliad<sup>7</sup>.

8. Er ein bod yn bryderus o hyd fod y rhagolygon ariannol ar gyfer 2001-02 yn debygol o gynnwys cryn anghywirdeb, rydym yn croesawu'r camau hwyr hyn i wella ansawdd yr wybodaeth rheoli o 2002-03. **Argymhellwn y dylai Cyfarwyddiaeth y GIG a GIG Cymru gydweithio'n agos â'i gilydd i sicrhau y caiff y mesurau hyn eu profi'n llawn a'u rhoi ar waith erbyn 31 Mawrth 2002, fel y gellir gwneud rhagolygon ariannol cywir ar gyfer blwyddyn ariannol 2002-03 a'r blynyddoedd dilynol.**
9. Roeddem yn bryderus o nodi, ar sail adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, mai un o'r ffactorau a gyfrannodd at y newidiadau i'r rhagolwg ariannol ar gyfer 1999-2000 oedd tanwario o £7 miliwn ar Wasanaethau Meddygol Cyffredinol, a thanwario o £3.7 miliwn ar fentrau newydd ac ariannu a neilltuwyd<sup>8</sup>. Eglurodd Mrs Lloyd i ni fod y tanwario ar Wasanaethau Meddygol Cyffredinol a mentrau eraill wedi'i ohirio tan 2000-2001 ac nad oedd GIG Cymru wedi'i goli<sup>9</sup>. Fodd bynnag, rydym yn bryderus dros ben ynghylch y posibiliad bod anallu GIG Cymru i ddarogan ei wariant a'i incwm yn gywir wedi arwain un ai at golli darpariaeth iechyd yn 1999-2000, neu y gallai'r arian a ddyrannwyd i'r gyllideb Iechyd a oedd heb ei wario yn y flwyddyn honno fod wedi'i gyfeirio i rywle arall yn rhaglenni'r Cynulliad er budd pobl Cymru.
10. Ynghylch y tanwario yn 1999-2000 ar wasanaethau meddygol cyffredinol, roeddem wedi nodi barn Mrs Williams mai anodd, yn hanesyddol, yw perswadio feddygon teulu i ddefnyddio'r cwbl o'r cyllidebau ar gyfer gwasanaethau iechyd cyffredinol<sup>10</sup>. Felly rydym yn croesawu cyhoeddi dogfen ymgynghorol y Cynulliad '*Gwella Iechyd yng Nghymru - Dyfodol Gofal Sylfaenol*' yng Ngorffennaf 2001<sup>11</sup>. **Anogwn Gyfarwyddiaeth y GIG i chwilio am gyfleodd o fewn y broses ymgynghori i ddarganfod dulliau mwy effeithiol o gynorthwyo meddygon teulu fel cyfangorff i ddarparu gwell ansawdd ac ystod o**

---

<sup>7</sup> Cau 6-7

<sup>8</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Tabl 5

<sup>9</sup> C22

<sup>10</sup> Cau 20 a 29-30

<sup>11</sup> Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru [dyddiad]

wasanaethau yn eu practisiau ac i wneud gwell defnydd o'r adnoddau sydd ar gael.

*Perfformiad talu cyflenwyr*

11. Mae'n ofynnol i'r holl gyrff GIG yng Nghymru gydymffurfio â chod 'talu prydlon' Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain a gofynion cyfrifo'r Llywodraeth bod pob anfoneb gydnabyddedig i'w thalu o fewn 30 diwrnod, oni bai fod telerau eraill wedi eu cytuno â'r cyflenwr<sup>12</sup>. Rydym yn bryderus bod y GIG, ar lefel Cymru gyfan, wedi talu dim ond 76.8 y cant o'r biliau o fewn y cyfnod 30 diwrnod yn ystod 1999-2000, ac yn benodol mai ychydig iawn o welliant a fu yn y perfformiad cyffredinol yn ystod y tair blynedd diwethaf<sup>13</sup>. Mae'n peri syndod i ni fod Ymddiriedolaeth GIG Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Llandochau wedi gallu talu dim ond ychydig dros 50 y cant o'i hanfonebion o fewn 30 diwrnod<sup>14</sup>.
12. Yn ein hadroddiad ar Gyfrifon Cryno y GIG (Cymru) 1998-99, roeddem wedi nodi ein bod yn pryderu o ddifrif ynghylch perfformiad awdurdodau ieuchyd ac ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru yn erbyn y targed talu prydlon, ac wedi annog Gyfarwyddiaeth y GIG i gymryd camau priodol i sicrhau bod yr holl gyrff GIG yn cydymffurfio â Chod Ymarfer Talu Cyflenwyr Cyd-ffederasiwn Diwydiant Prydain<sup>15</sup>. **Rydym yn siomedig dros ben felly mai dim ond gwelliant ymylol yn y perfformiad talu prydlon a gafwyd yn 1999-2000, ac rydym yn pwysu'n daer ar Gyfarwyddiaeth y GIG i gymryd camau i sicrhau lefel perfformiad uwch o lawer yng nghyflymder talu anfonebion ym mlynnyddoedd y dyfodol. Yn hyn o beth, rydym yn croesawu cynnig Mrs Lloyd y dylai perfformiad talu cyflenwyr, yn enwedig gan ymddiriedolaethau GIG, ddod yn faen prawf perfformiad ffurfiol<sup>16</sup>.**

<sup>12</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 4.13

<sup>13</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 4.14

<sup>14</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 4.17

<sup>15</sup> Adroddiad y Pwyllgor Archwilio: *Cyfrifon Cryno y GIG (Cymru) 1998-99*, a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 13 Gorffennaf 2000

<sup>16</sup> C33

**Bwriadwn fonitro'r cynnydd ar hyn yn fanwl.** Roeddem hefyd wedi nodi barn Mrs Lloyd fod gwerth yr anfonebion a delir yr un mor bwysig fel mesur o berfformiad<sup>17</sup>. Fodd bynnag, credwn ei bod yn holl bwysig nad yw GIG Cymru yn diystyru'r cwmnïau annibynnol bach hynny sy'n cyflenwi'r gwasanaeth iechyd â nwyddau a gwasanaethau, a'u hanfonebion o bosibl o werth ariannol isel. Rydym yn disgwyl i'r cyrff GIG sicrhau nad yw'r pwysau gan Gyfarwyddiaeth y GIG i ganolbwyntio ar werth yr anfonebion a delir yn amharu'n anfwriadol ar lifau arian cyflenwyr llai.

*Cyflawniad yn erbyn targedau perfformio a chynlluniau adfer*

13. Mae gan ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru darged statudol o 'adennill costau' dros gyfnod treigl o dair blynedd. Fodd bynnag, roeddem wedi nodi, ar sail adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, fod Cyfarwyddiaeth y GIG wedi rhoi cymeradwyaeth, fel eithriad, i Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen i ymestyn eu cyfnod adennill costau i bum mlynedd<sup>18</sup>. Dywedodd Mrs Lloyd wrthym nad oedd yr estyniadau hyn yn rhai ôl-weithredol, ond eu bod yn hytrach yn rhan o'r cynlluniau adfer a negodwyd gan y ddwy ymddiriedolaeth GIG hyn a'u bod wedi'u cymeradwyo fel eithriad i sicrhau bod modd cynnal gwasanaethau cleifion yn ystod y cyfnod adfer<sup>19</sup>.
14. Roeddem wedi nodi, ar sail adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, fod y Comisiwn Archwilio wedi mynegi pryderon, ar gyfer blwyddyn ariannol 1999-2000, ynghylch sefyllfa ariannol 12 ymddiriedolaeth GIG, ac wedi dod i'r casgliad nad oedd rhesymau derbynol gan ddwy o'r ymddiriedolaethau hynny am fod heb gynlluniau adfer cytunedig<sup>20</sup>. **Fodd bynnag, fe'n calonogwyd gan y camau cadarnhaol a gymerwyd ers hynny gan Gyfarwyddiaeth y GIG i hwyluso adferiad yr ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru.** Roeddem yn falch o gael sicrwydd gan Mrs Lloyd fod yr holl gynlluniau adfer, ac eithrio rhai Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru ac ardal awdurdod iechyd Gwent, wedi'u cytuno erbyn hyn ac rydym yn nodi'r pryderon sydd ganddi o hyd

---

<sup>17</sup> Cau 33-34

<sup>18</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraffau 4.11 a 4.12

<sup>19</sup> Cau 35 a 39

<sup>20</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 4.22 a Ffigur 6

ynghylch cau ward ysbyty o fewn Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Powys<sup>21</sup>.

**Anogwn Gyfarwyddiaeth y GIG i gytuno ar gynlluniau adfer ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru ac ardal awdurdod iechyd Gwent fel mater brys** [*Sylwer: deallwn fod y cam gweithredu hwn heb ei gyflawni eto. Os cymeradwyir y ddau gynllun cyn i'r Pwyllgor Archwilio gytuno ar yr adroddiad hwn, byddwn yn dileu'r argymhelliad hwn*]. **Bwriadwn barhau i fonitro cynnydd y broses adfer ariannol o fewn GIG Cymru.**

### **Ailgyflunio ac ailstrwythuro GIG Cymru**

15. Arweiniodd y gwaith o ailgyflunio'r ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru ar 1 Ebrill 1999 at ostyngiad yn eu nifer o 26 i 16. Ar y pryd roedd GIG Cymru yn amcangyfrif y byddai'r broses ailstrwythuro hon yn costio £10.6 miliwn dros saith mlynedd, ond y byddid, erbyn y bumed flwyddyn, yn creu arbedion rheolaidd blyneddol o £6.9 miliwn<sup>22</sup>. Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol wybod mai dim ond £0.5 miliwn oedd cyfanswm y costau ailstrwythuro net ar 31 Mawrth 2000 mewn gwirionedd, o'i gymharu ag amcangyfrif gwreiddiol o £4.9 miliwn. Hyd yn hyn, bu'r costau gros yn is nag a ragwelwyd a bu'r arbedion yn uwch nag a ragwelwyd<sup>23</sup>. Dywedodd Mrs Lloyd wrthym nad oedd yn bwriadu adolygu'r rhagolygon gwreiddiol, fel y gellid parhau i fesur y perfformiad yn erbyn y ffon fesur honno<sup>24</sup>.
16. Ar 2 Chwefror 2001, cyhoeddodd Gweinidog y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol '*Gwella Iechyd yng Nghymru – Cynllun i'r GIG ynghyd â'i Bartneriaid*'. Amcan y Cynllun hwn yw gwella ansawdd ac effeithiolrwydd gofal iechyd drwy ailffocysu gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion cleifion a chymunedau. Ymhlith y mesurau sydd ynddo y mae

---

<sup>21</sup> C40

<sup>22</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraffau 3.2-3.4 a Thabl 2

<sup>23</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraffau 3.6-3.7 a Thabl 3

<sup>24</sup> C50

## CYFYNGEDIG - ARCHWILIAD

diddymu'r pum awdurdod iechyd erbyn Ebrill 2003 a chryfhau rôl y grwpiau iechyd lleol<sup>25</sup>.

17. O ystyried yr amrywiant sylweddol rhwng y rhagolwg o gostau ac arbedion ailstrwythuro a'r gwir berfformiad hyd at 31 Mawrth 2000, mae sawl mater yn peri pryder i ni ynghylch yr ailstrwythuro diweddaraf sydd wedi'i gynnig:

- a fydd Cyfarwyddiaeth y GIG yn gallu rheoli'r ailgyflunio ac ailstrwythuro hwn yn effeithiol pan yw galluoedd cyrff iechyd i ddarogan costau ac arbedion yn gywir mor amlwg o wael<sup>26</sup>;
- y perygl y bydd nifer mawr o staff allweddol talentog yn gadael yr awdurdodau iechyd yn y misoedd cyn eu diddymu ym Mawrth 2003<sup>27</sup>; a
- y risg na fydd Cyfarwyddiaeth y GIG yn gallu canfod yn gywir yr holl gostau ac arbedion o wasgaru'r awdurdodau iechyd yng Nghymru cyn eu diddymu<sup>28</sup>.

19. Rydym yn nodi'r sicrwydd a gawsom gan Mrs Lloyd y bydd cywirdeb y darogan o gostau ail-leoli a diswyddo yn gwella wrth ymroi i'r gwaith manwl ar weithredu<sup>29</sup>, a byddwn yn dod yn ôl at y mater hwn yn y dyfodol. Rydym hefyd yn nodi sylw Mrs Lloyd y bydd Cyfarwyddiaeth y GIG yn ceisio sicrhau'r nifer lleiaf posibl o ddiswyddiadau fel na fydd GIG Cymru yn colli staff talentog<sup>30</sup>.

20. Rydym yn cydnabod, yng nghyd-destun '*Gwella Iechyd yng Nghymru*', mai'r fantais sylfaenol a ddylai ddeillio o wasgaru'r awdurdodau iechyd yw darparu, comisiynu a sicrhau gwasanaethau lleol mewn cyd-destun lleol drwy gryfhau pwerau Grwpiau Iechyd Lleol. Rydym felly'n ategu barn Mrs Lloyd nad mater o arbed costau yn unig yw ailstrwythuro<sup>31</sup>. Fodd bynnag, rydym yn synnu ac yn pryderu nad oedd Cyfarwyddiaeth y GIG yn gallu darparu hyd yn oed asesiad rhagarweiniol o'r costau a'r arbedion tebygol o ganlyniad i wasgaru'r awdurdodau

---

<sup>25</sup> Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru [dyddiad]

<sup>26</sup> C49

<sup>27</sup> Cau 12 a 63

<sup>28</sup> Cau 56-62

<sup>29</sup> C49

<sup>30</sup> Cau 49 a 63

<sup>31</sup> Cau 55-61

iechyd<sup>32</sup>. Rydym hefyd yn bryderus am nad yw Cyfarwyddiaeth y GIG wedi ystyried adolygu'r rhagolwg gwreiddiol o'r costau a'r arbedion a geir drwy weithredu '*Gwella Iechyd yng Nghymru*'<sup>33</sup>. **Rydym o'r farn fod darogan dibynadwy o ganlyniadau ariannol yr ad-drefnu yn hanfodol ar gyfer proses penderfynu oleuedig a gallu Cyfarwyddiaeth y GIG i fonitro gweithredu. Rydym yn disgwyl i Gyfarwyddiaeth y GIG ganfod maint tebygol y costau a dilyn hynt y costau hynny o'u cymharu â'r rhagolygon.**

### **Prisio presgripsiynau**

21. Health Solutions Wales, rhan o Awdurdod Iechyd Bro Taf (yr Awdurdod) sy'n gyfrifol am brisio'r cyffuriau a'r cyfarpar a ddosbarthir gan fferyllwyr a hefyd am brisio'r presgripsiynau a chyfrifo'r taliadau sy'n ddyledus i bob fferyllydd. Wrth wneud y cyfrifiadau hyn, mae Health Solutions Wales yn tynnu unrhyw daliadau presgripsiynau a gasglwyd gan y fferyllydd. Trosglwyddir yr wybodaeth hon i'r awdurdodau iechyd fel y gallant wneud y taliadau priodol i'r fferyllwyr yn eu hardaloedd<sup>34</sup>.
22. Yn ystod 1999-2000, achoswyd oedi mewn prisio gan brinder yn y cyflenwad o gyffuriau generig ac, o ganlyniad i hynny, nid oedd y contractwyr dosbarthu yn gallu dibynnu ar eu cyflenwyr arferol a bu'n rhaid iddynt brynu o ffynonellau eraill. (Er mwyn sicrhau bod y contractwyr yn derbyn ad-daliadau cywir, mae'r eitemau hyn yn cael eu prisio'n wahanol i eitemau arferol ac fe'u gelwir yn rhai 'Categori D', sy'n golygu bod yr union swm a dalwyd yn cael ei ad-dalu yn hytrach na thâl cyfartalog a bennir ymlaen llaw yn y Rhestr Prisiau Cyffuriau fisol.) Yn ystod 1999-2000, ychwanegwyd ystod o gyffuriau a ragnodir yn aml at 'Categori D' i raddau nas gwelwyd o'r blaen, ac roedd hyn yn golygu bod:
  - Health Solutions Wales yn cymryd llawer mwy o amser i brosesu presgripsiynau oedd yn cynnwys cyffuriau 'Categori D', gan fod rhaid ystyried a phrisio pob eitem yn unig; a

---

<sup>32</sup> Cau 56-57

<sup>33</sup> C50

<sup>34</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 3.17

## CYFYNGEDIG - ARCHWILIAD

- oedi yn digwydd o ganlyniad i hynny wrth baratoi amserlenni talu gan yr Awdurdod i alluogi'r awdurdodau iechyd i dalu contractwyr dosbarthu ac i'r grwpiau iechyd lleol allu monitro'r gwariant ar gyffuriau<sup>35</sup>.
23. Rydym yn nodi, ar sail adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, fod ôl-groniad o chwe mis wedi datblygu, erbyn 31 Mawrth 2000, yn y gwaith o brisio presgripsiynau, am mai dim ond presgripsiynau ar gyfer y cyfnod Ebrill i Fedi 1999 oedd wedi'u prasio'n llawn. Oherwydd yr anawsterau hyn, roedd fferyllwyr yn derbyn taliadau misol o flaen llaw oddi wrth yr awdurdodau iechyd am ddsbarthu presgripsiynau, ar sail amcangyfrifon o lwythi gwaith blaenorol ynghyd ag ychwanegiad o 1 y cant ar gyfer codiadau yng nghostau cyffuriau. Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol wybod am amcangyfrif swyddogion y Cynulliad bod y blaendaliadau hyn wedi arwain at ordaliadau i fferyllwyr o rhwng £5 miliwn a £6 miliwn, ac mai bwriad y pum awdurdod iechyd oedd adennill y symiau hyn yn ystod 2001-02<sup>36</sup>.
24. Eglurodd Mrs Williams i ni fod delio â'r canlyniadau o ran prasio presgripsiynau yn sgil y prinder yn y cyflenwad o gyffuriau generig yn fater nad oedd wedi codi o'r blaen, ac nad oedd ateb ar gael gan Health Solutions Wales na'r Cynulliad. Yn hytrach, roedd angen datrys y broblem ar lefel Cymru a Lloegr gyda'r Adran Iechyd a'r Pwyllgor Negodi Gwasanaethau Fferyllol, a pharhaodd y broses hon yn hwy nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Eglurodd Mrs Williams hefyd na fu'n bosibl i Health Solutions Wales gyflogi niferoedd mawr o staff ychwanegol i glirio'r ôl-groniad. Roedd hynny yn rhannol oherwydd y gost, ond hefyd am y byddai wedi cymryd chwe mis i hyfforddi pob prisiwr newydd o dan y system brosesu oedd ar waith ar y pryd<sup>37</sup>.
25. **Rydym yn cydnabod yr ymdrechion dygn gan Health Solutions Wales wrth ddelio â'r ôl-groniad a achoswyd gan y cynnydd yn y cyffuriau Categori D a ddsbarthwyd gan Fferyllwyr yn ystod 1999-2000, ac yn nodi'r sicrwydd a gawsom gan Mrs Williams y bydd Health Solutions Wales yn cyrraedd y targed eto ar gyfer prosesu presgripsiynau erbyn Tachwedd 2001<sup>38</sup>.**

<sup>35</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraffau 3.18-3.19

<sup>36</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 3.21

<sup>37</sup> C65

<sup>38</sup> C69

26. Ynghylch mater adennill gordaliadau i fferyllwyr, rydym yn croesawu'r sicrwydd a gawsom gan Mrs Williams y bydd gordaliadau'n cael eu hadennill yn llwyr, ond rydym yn bryderus o nodi y bydd y gwaith o adennill gordaliadau yn llithro ymlaen i 2002-03<sup>39</sup>. **Rydym yn annog Cyfarwyddiaeth y GIG i weithio'n agos gyda Health Solutions Wales a'r awdurdodau iechyd i sicrhau y bydd yr holl ordaliadau'n cael eu hadennill yn llwyr ar y cyfle cyntaf, fel y gellir sianelu'r cyllid hwn yn ôl i ofal am gleifion.**
27. Amcangyfrifwyd yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol *'Mwyhau'r Incwm Mwyaf oddi wrth Daliadau Presgripsiynau'* ei bod yn bosibl bod tua £15 miliwn o incwm y flwyddyn yn cael ei ildio o ganlyniad i ganiatáu eithriadau rhag taliadau presgripsiynau i unigolion nad oeddent yn bodloni'r meini prawf perthnasol<sup>40</sup>. Rydym felly'n falch o nodi'r camau cadarnhaol a gymerodd Health Solutions Wales i wella ei systemau monitro ac i dynnu sylw ei staff at faes lle'r oedd incwm yn cael ei gollu. Rydym hefyd yn nodi bod y pum awdurdod iechyd wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Cynulliad i fwyhau'r incwm oddi wrth daliadau presgripsiynau. Dywedwyd wrthym y dylai'r gostyngiadau yn yr incwm a gollir ddod i'r amlwg erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2001-02, a bwriadwn fynd yn ôl at y mater hwn yn y dyfodol<sup>41</sup>. **Rydym yn disgwyl i Health Solutions Wales wella'r monitro ar incwm oddi wrth bresgripsiynau a gostwng yn sylweddol yr incwm a gaiff ei ildio o ganlyniad i ganiatáu eithriadau amhriodol, gan weithio mewn partneriaeth â'r pum awdurdod iechyd a'r Cynulliad.**

#### **Mynd i'r afael â thwyll yn y GIG**

28. Yn Ebrill 2000, cyhoeddodd y Cynulliad ei fod yn bwriadu dod yn bartner â'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Gwrth-Dwyll yn Lloegr mewn menter bwysig i fynd i'r afael â thwyll yn y GIG. Nodwn fod Tîm Gwasanaeth Gweithredol Gwrth-Dwyll (Cymru) wedi'i sefydlu yn Ebrill 2001 a'i fod bellach, ar ôl cwblhau ei hyfforddiant, yn llwyr weithredol<sup>42</sup>.
29. Wrth ymateb i'n cwestiynau ar reolaeth ariannol GIG Cymru, dywedodd Mrs Lloyd "iddi fod yn anodd bod yn llym ynghylch rheolaeth ar arian a rheolaeth ar

---

<sup>39</sup> Cau 68-70

<sup>40</sup> Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, paragraff 3.26

<sup>41</sup> Cau 71-72

incwm a gwariant"<sup>43</sup>. Rydym yn bryderus bod yr ymagwedd ddigyffro hon, os yw'n gyffredin ymysg rheolwyr yn y gwasanaeth iechyd, yn creu diwylliant lle mae twyll yn annhebygol o gael ei ddarganfod. **Fodd bynnag, rydym yn cytuno â dadl Mrs Lloyd bod canfod ac atal twyll yn gyfrifoldeb i holl staff y GIG, ac nid y rhai sy'n gweithio mewn adrannau cyfrifon ysbytai yn unig<sup>44</sup>. Rydym felly'n annog Cyfarwyddiaeth y GIG i weithio'n agos gyda Thîm Gwasanaeth Gweithredol Gwrth-Dwyll (Cymru) i sicrhau bod yr holl staff yn GIG Cymru yn llwyr ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran mynd i'r afael â thwyll.**

### **Crynodeb o'r casgliadau a'r argymhellion**

30. Yng ngolwg ein darganfyddion, rydym yn cyflwyno'r casgliadau a'r argymhellion canlynol:

#### *Ar berfformiad ariannol cyffredinol GIG Cymru*

- (i) Mae'n holl bwysig bod GIG Cymru yn gallu manteisio ar yr holl adnoddau sydd ar gael, a'u defnyddio yn y modd mwyaf effeithiol er mwyn darparu gwasanaeth iechyd o ansawdd uchel i bobl Cymru. O ystyried cyflwr gwael y systemau darogan ariannol a rheoli gwybodaeth presennol, rydym o'r farn nad yw hyn yn bosibl ar hyn o bryd. Rydym felly'n annog Cyfarwyddiaeth y GIG i gymryd pob cam angenrheidiol i sicrhau darogan amserol a chywir o wariant ac incwm yn GIG Cymru, er mwyn rheoli ei gyllidebau'n fwy effeithiol a mwyhau'r maint o ofal iechyd a ddarperir;
- (ii) Cydnabyddwn iddi fod yn anodd, yn hanesyddol, i Gyfarwyddiaeth y GIG berswadio meddygon teulu i gymryd rhan mewn prosiectau fel gwella ansawdd ac ystod gwasanaethau meddygol cyffredinol. Argymhellwn y dylai Cyfarwyddiaeth y GIG chwilio am gyfleoedd, o fewn y fframwaith a nodir yn nogfen ymgynghorol y Cynulliad '*Gwella Iechyd yng Nghymru - Dyfodol Gofal Sylfaenol*' (Gorffennaf 2001), i gynorthwyo'r meddygon teulu fel cyfangorff i ddarparu ystod ehangach o wasanaethau o ansawdd uchel yn eu practisiau;

---

<sup>42</sup> C73

<sup>43</sup> C4

<sup>44</sup> C83

## CYFYNGEDIG - ARCHWILIAD

- (iii) Rydym yn siomedig dros ben ynghylch y gwelliant ymylol yn unig yn y perfformiad talu prydlon yn 1999-2000, ac anogwn Gyfarwyddiaeth y GIG i gymryd camau priodol ar fyrder i sicrhau lefel uwch o lawer o berfformiad talu yn chwarter olaf blwyddyn ariannol 2001-02 o leiaf;
- (iv) Cymeradwywn benderfyniad Cyfarwyddiaeth y GIG i wneud perfformiad talu yn fesur o berfformiad rheoli. Fodd bynnag, er ein bod yn cydnabod y manteision ychwanegol o fesur perfformiad talu yn ôl gwerth yr anfonebion a delir o fewn 30 diwrnod, rydym yn argymhell y dylai nifer yr anfonebion a delir o fewn 30 diwrnod barhau'n brif fesur perfformiad;
- (v) Er ein bod yn cydnabod yr amgylchiadau eithriadol a arweiniodd at ymestyn y cyfnod adennill costau ar gyfer dwy ymddiriedolaeth GIG o dair i bum mlynedd fel rhan o broses y cynllun adfer, ni fyddem fel rheol yn cefnogi estyniadau ôl-weithredol o'r fath i'r cyfnod adennill costau statudol gan fod hyn, yn ein barn ni, yn golygu gwanhau'n sylweddol y gyfundrefn rheolaeth ariannol yn GIG Cymru;
- (vi) Rydym yn croesawu'r camau cadarnhaol a gymerir gan Gyfarwyddiaeth y GIG i sicrhau adferiad ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru, ond anogwn Gyfarwyddiaeth y GIG i gytuno ar gynlluniau adfer ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru ac ardal awdurdod iechyd Gwent fel mater brys [*Sylwer: deallwn fod y cam gweithredu hwn heb ei gyflawni eto. Os cymeradwyir y ddau gynllun cyn i'r Pwyllgor Archwilio gytuno ar yr adroddiad hwn, byddwn yn dileu'r argymhelliad hwn*]. Bydd y Pwyllgor yn parhau i fonitro cynnydd y broses adfer ariannol o fewn GIG Cymru yn fanwl.

### ***Ar ailgyflunio ac ailstrwythuro GIG Cymru***

- (vii) Ynghylch rheoli ailgyflunio ac ailstrwythuro GIG Cymru, rydym yn argymhell yn gryf:
  - y dylai'r fframwaith rheolaeth, goruchwyliaeth ac atebolrwydd fod yn glir ac yn syml, gyda ffocws clir ar gyflawni gwelliannau yn effeithiolrwydd gweithredol GIG Cymru;

## **CYFYNGEDIG - ARCHWILIAD**

- y dylid cael llywodraethu corfforaethol cadarn ac effeithiol, gan ddefnyddio sgiliau GIG Cymru ar y cyd i ddarparu goruchwyliaeth a rheolaeth;
  - y dylai'r ailstrwythuro fynd rhagddo ar sail dealltwriaeth lawn o'r holl gostau, ac y dylid adolygu'r rhagolygon o gostau ac arbedion yr ailstrwythuro wrth i'r prif newidiadau a nodir yn *'Gwella Iechyd yng Nghymru'* ddwyn ffrwyth;
  - y dylai Cyfarwyddiaeth y GIG ddatblygu cynlluniau wrth gefn a hefyd neilltuo darpariaethau ariannol o dan reolaeth dynn i ddelio â digwyddiadau annisgwyl;
  - y dylid dilyn a chofnodi'r holl ymrwymadau gwariant a wneir yn ystod y broses ailstrwythuro yn ganolog, fel y gall y Cynulliad ganfod yn llawn ac yn gyflym gyfanswm y lefel o ymrwymadau a dyledion; a
  - y dylid rhoi adroddiadau clir, cywir ac amserol i'r Cynulliad ar gostau ariannol ailstrwythuro GIG Cymru.
- (viii) Rydym yn cadarnhau bod angen i Gyfarwyddiaeth y GIG weithio'n agos gyda'r awdurdodau iechyd yng Nghymru i sicrhau nad yw GIG Cymru yn colli staff talentog o ganlyniad i'r ailstrwythuro sy'n deillio o weithredu *'Gwella Iechyd yng Nghymru'*. Rydym hefyd yn annog Cyfarwyddiaeth y GIG i barhau i ymdrechu i sicrhau'r nifer lleiaf posibl o ddiswyddiadau o ganlyniad i'r bwriad i wasgaru'r awdurdodau iechyd yng Nghymru.

### ***Ar brisio presgripsiynau***

- (ix) Rydym yn bryderus bod y gwaith o adennill gordaliadau i fferyllwyr yn annhebygol o gael ei gwblhau tan 2002-03. Er ein bod yn cydnabod effaith bosibl adenillion o'r fath ar lifau arian pob busnes fferyllfa, anogwn Gyfarwyddiaeth y GIG i gydweithio'n agos â Health Solutions Wales a'r pum awdurdod iechyd i sicrhau bod y gordaliadau'n cael eu hadennill yn llawn ar y cyfle cynharaf, fel y gellir sianelu'r cyllid hwn yn ôl i ofal am gleifion;
- (x) Disgwyliwn i Health Solutions Wales wella'r monitro ar incwm oddi wrth bresgripsiynau a lleihau'n sylweddol yr incwm sy'n cael ei ildio o ganlyniad i

## **CYFYNGEDIG - ARCHWILIAD**

ganiatáu eithriadau amhriodol, gan weithio mewn partneriaeth â'r pum awdurdod iechyd a'r Cynulliad. Bwriadwn ddod yn ôl at y mater hwn yn y dyfodol.

### ***Ar fynd i'r afael â thwyll yn y GIG***

- (xi) Rydym yn falch o nodi bod Tîm Gwasanaeth Gweithredol Gwrth-Dwyll (Cymru) yn llwyr weithredol yn awr, ac arhoswn â diddordeb i weld arwyddion cynnar o effaith ariannol y Tîm ar dargedu twyll o fewn GIG Cymru;
- (xii) Anogwn Gyfarwyddiaeth y GIG i weithio'n agos gyda Thîm Gwasanaeth Gweithredol Gwrth-Dwyll (Cymru) i sicrhau bod yr holl staff o fewn GIG Cymru yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran canfod ac atal twyll.

### **Sylwadau wrth Gloi**

31. Mae *'Gwella Iechyd yng Nghymru – Cynllun i'r GIG ynghyd â'i Bartneriaid'* yn nodi rhaglen weithredu'r Cynulliad ar gyfer gwella iechyd a gofal iechyd pobl Cymru dros y 10 mlynedd nesaf. Er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei weithredu'n llwyddiannus, rydym yn annog Cyfarwyddiaeth y GIG i atgyfnerthu lefelau y sgiliau ariannol a'r sgiliau rheoli prosiect o fewn GIG Cymru.
32. Rydym yn cydnabod bod GIG Cymru yn gwneud cynnydd da ar ymdrin â pherfformiad ariannol gwael. Er hynny, mae llawer eto i'w wneud. Gan hynny, rydym yn annog Cyfarwyddiaeth y GIG i roi sylw i ddiffyg cronodig sylweddol GIG Cymru (£58 miliwn ar 31 Mawrth 2000), i roi ystyriaeth ofalus i'n hargymhellion ar reoli diddymiad yr awdurdodau iechyd, ac i barhau i geisio lleihau lefel y twyll o fewn GIG Cymru. Mae'n holl bwysig bod GIG Cymru yn gallu manteisio'n llawn ar yr holl adnoddau sydd ar gael a'u defnyddio yn y modd mwyaf effeithiol posibl er mwyn darparu gwasanaeth iechyd o ansawdd uchel i bobl Cymru.

***Trafodion perthnasol y Pwyllgor - Cofnodion Tystiolaeth  
(Dydd Iau 28 Mehefin 2001)***

**[I'w roi i mewn]**

**Y PWYLLGOR ARCHWILIO**

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn sicrhau bod gwariant y Cynulliad yn cael ei archwilio'n iawn ac yn drylwyr a bod y Cynulliad a chyrrff cyhoeddus eraill yn gweithredu'n unol â'r safonau uchaf posibl wrth reoli eu materion ariannol. Mae'n gwneud hynny fel y gall pobl Cymru fod yn hyderus bod eu harian yn cael ei wario'n ddoeth ac yn dda.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn archwilio adroddiadau a baratoir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfrifon y Cynulliad a chyrrff cyhoeddus eraill ac ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y Cynulliad wrth ddefnyddio'i adnoddau i gyflawni'i swyddogaethau. Mae'r Pwyllgor yn gwneud ymholiadau penodol i faterion o ddiddordeb neu bryder sy'n codi o'r adroddiadau hyn. Wrth wneud hynny gall wrando tystiolaeth gan y swyddogion cyfrifo cysylltiedig a gweision sifil eraill a galw am bapurau perthnasol. Mae wedyn y rhoi adroddiad ac yn gwneud argymhellion ar sail ei ddarganfyddion. Wrth gynnal ei ymholiadau, ni all y Pwyllgor amau gwerth amcanion polisi'r Cynulliad nac unrhyw gorff arall sydd o dan sylw.

Aelodaeth y Pwyllgor a benodwyd ar xxxxxx yw:

Cadeirydd: Janet Davies (Plaid Cymru)

Alun Cairns (Ceidwadwyr)

Jocelyn Davies (Plaid Cymru)

Alison Halford (Llafur)

Ann Jones (Llafur)

Peter Law (Llafur)

Lynne Neagle (Llafur)

Dafydd Wigley (Plaid Cymru)

Kirsty Williams (Democratiaid Rhyddfrydol)

## ***CYFYNGEDIG - ARCHWILIAD***

Os dymunwch gysylltu â'r Pwyllgor gallwch wneud hynny drwy anfon neges e-bost ato yn [audit.comm@wales.gsi.gov.uk](mailto:audit.comm@wales.gsi.gov.uk) neu drwy ysgrifennu at neu ffonio Clerc y Pwyllgor yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA. Y rhif ffôn yw (029) 20 898155.